# Tasg 1

**(Estynnol, sbardun 1)**

1. Rhowch 3 rheswm pam mae'r bardd am beintio ieir bach yr haf ym mhobman.
   i)
   ii)
   iii)

2. Ble yn union mae e am beintio ieir bach yr haf?

3. Mae llawer o gwestiynau rhethregol yn y gerdd. Beth yw eu pwrpas a sut effaith maen nhw'n ei gael ar y darllennydd?

4. Sut mae'r bardd yn teimlo tuag at bobl yn gyffredinol?

5. Dychmygwch bod y bardd wedi peintio ieir bach yr haf fel mae'n ei ddymuno ac ysgrifennwch sgwrs rhwng dau berson – un yn cefnogi'r bardd a'r llall yn erbyn y graffiti.